# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## **RHAN 1**

## AELODAETH A STATWS

*Aelodaeth*

1 (1) Mae SAC i gael 9 aelod.

(2) Dyma hwy—

(a) 5 person nad ydynt yn gyflogeion i SAC ("aelodau anweithredol") (gweler Rhan 2 o'r Atodlen hon),

(b) yr Archwilydd Cyffredinol (gweler Rhan 3 o'r Atodlen hon), ac

(c) 3 chyflogai i SAC ("yr aelodau sy'n gyflogeion") (gweler Rhannau 4 a 5 o'r Atodlen hon).

*Penodi aelodau anweithredol ac aelodau sy'n gyflogeion*

2 (1) Mae aelodau SAC (ar wahân i'r Archwilydd Cyffredinol) i'w penodi yn unol â darpariaethau'r Atodlen hon.

(2) Rhaid gwneud pob penodiad ar sail teilyngdod.

(3) Ni all person gael ei benodi yn aelod o SAC os yw'r person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn Rhan 6 o'r Atodlen hon.

(4) Mae person yn peidio â bod yn aelod o SAC os yw'r person yn cael ei anghymhwyso ar unrhyw un o'r seiliau hynny.

*Statws*

3 (1) Nid yw SAC nac unrhyw un o'i haelodau i'w hystyried neu ei ystyried—

(a) yn was neu'n asiant i'r Goron, na

(b) yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.

(2) Ond ystyrir bod aelodau SAC yn weision y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

(3) Nid yw eiddo SAC i'w ystyried yn eiddo i'r Goron neu'n eiddo sy'n cael ei ddal ar ran y Goron.

(4) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i'r Archwilydd Cyffredinol (ac ar gyfer darpariaethau ynglŷn â statws yr Archwilydd Cyffredinol, gweler adran 6).